



Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

Ymgynghoriad Siarter Awdurdod Cyllid Cymru

rhagair
rhagair



Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

Rhagair

Mae'r ymgynghoriad ar Siarter arfaethedig yr Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn rhan bwysig o sefydlu Awdurdod Cyllid newydd Cymru ac, yn bwysicach na dim, o greu system dreth deg i Gymru.

Mae'r ddogfen hon yn datgan y gwerthoedd, y safonau a'r ymddygiad yr ydyn ni'n credu y bydd ein cwsmeriaid eisiau eu gweld yn yr hyn rydyn ni'n ei wneud - ac mae'r ymgynghoriad yn gyfle i ni glywed eich safbwyntiau chi ar y cynnig hwn. Rydyn ni'n credu bod gweithio mewn partneriaeth â'n cwsmeriaid a gyda'r cyhoedd yng Nghymru'n hanfodol, felly cofiwch ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl yn ystod yr ymgynghoriad hwn.

Byddwn yn dadansoddi'r holl ymatebion rydyn ni'n eu cael wrth i ni sefydlu Awdurdod Cyllid newydd Cymru gyda'r Siarter hwn yn rhan ganolog ohono.

Kathryn Bishop
Cadeirydd, Awdurdod Cyllid Cymru





Pwy yw Awdurdod Cyllid Cymru

- ACC yw'r Awdurdod Treth cyntaf erioed yng Nghymru
- O fis Ebrill 2018 ymlaen, fe fyddwn ni'n casglu ac yn rheoli'r Dreth Trafodiadau Tir (sy'n cael ei thalu wrth i chi brynu neu brydlesu adeilad neu dir sy'n uwch na phris penodol yng Nghymru) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (sy'n cael ei thalu pan mae gwastraff yn cael ei waredu mewn safle tirlenwi).
- Mae hyn yn golygu y bydd cwsmeriaid yn cyflwyno eu ffurflenni treth ac yn talu'r dreth sy'n ddyledus ganddynt i ni.
- Bydd yr holl gyllid fyddwn ni'n ei gasglu'n cael ei ddefnyddio i gyllido gwasanaethau cyhoeddus Cymru.



Cydweithio dros system dreth deg yng Nghymru

- Rydyn ni eisiau gweithio gyda'n cwsmeriaid a'r cyhoedd yng Nghymru i greu system dreth deg ar gyfer Cymru.
- Rydyn ni wedi datblygu Siarter sy'n datgan cyfrifoldebau ar y cyd rhwng ACC (a'i bartneriaid), cwsmeriaid a'r cyhoedd yng Nghymru ar gyfer creu system dreth deg yng Nghymru.
- Rydyn ni wedi cynllunio hyn oherwydd rydyn ni'n credu y bydd pennu ymddygiad a gwerthoedd ar y cyd yn ein galluogi i gydweithio'n haws. Y rheswm am hyn yw oherwydd y byddwn ni'n rhannu cyfrifoldeb am ddarparu'r gwerthoedd, yr ymddygiad a'r safonau sydd wedi'u datgan yn y Siarter.
- Mae hefyd yn gosod gwaith partneriaeth wrth galon ein sefydliad.




Y Siarter: Gwerthoedd, Safonau ac Ymddygiad

- Rydyn ni wedi ystyried yr adborth o'n hymgysylltu ym mis Chwefror 2016, yr ymchwil i Siarteri yn fwy cyffredinol a'r adborth ar sut byddech chi'n hoffi gweithio gyda ni.
- Mae ein Siarter yn datgan yr ymddygiad a'r gwerthoedd sy'n bwysig yn ein barn ni er mwyn creu'r system dreth yng Nghymru. Maent yn adlewyrchu'r safbwyntiau a drafodwyd gyda ni yn ystod ein hymgyngoriad a'n hadborth blaenorol o fforymau rhanddeiliaid.
- Er enghraifft, rydyn ni'n credu ein bod yn gyfrifol ar y cyd am gadw gwybodaeth yn ddiogel – yn gwneud yn siŵr mai dim ond gyda'r bobl hynny sydd â hawl i'w derbyn y byddwn ein dau'n rhannu data.



Siarter Awdurdod Cyllid Cymru





Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru

- Rydyn ni'n credu ei bod yn bwysig i bobl gael lleisio eu barn am sut mae ein gwasanaethau ni'n cael eu darparu. Y rheswm am hyn yw oherwydd y bydd yr holl gyllid a gaiff ei godi'n cael ei ddefnyddio i gyllido gwasanaethau cyhoeddus Cymru.
- Hyd yn oed os nad ydych chi'n un o'n cwsmeriaid ni nawr, gallech chi ddod yn un yn y dyfodol, er enghraifft, os byddwch yn prynu tŷ yng Nghymru.
- Rydyn ni eisiau eich barn chi ar sut gallwn ni eich cynnwys chi yn yr hyn rydyn ni'n ei wneud.
- Gallai hyn gynnwys y canlynol:
 - ✓ Cynnal fforymau ble rydyn ni'n rhannu gwybodaeth am beth rydyn ni'n ei wneud
 - ✓ Rhoi gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol a gofyn am adborth
 - ✓ Cynnal arolygon ar-lein



Mesur ein llwyddiant

- Mae'n bwysig ein bod ni'n gwybod sut rydyn ni'n gwneud o ran cyflawni ein Siarter a sut gallwn ni wella. Hefyd rydyn ni eisiau i chi wybod sut rydyn ni'n gwneud hefyd.
- Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefan fel ei bod yn hawdd gweld sut rydyn ni'n gwneud a beth rydyn ni wedi'i wneud i sicrhau gwelliannau. Hefyd byddwn yn rhannu data â chi mewn digwyddiadau a fforymau.
- Gallem rannu'r wybodaeth ganlynol gyda chi:
 - ✓ Data arolwg ar farn cwsmeriaid am ein gwasanaeth, er enghraifft, o holiaduron ar ôl cyflwyno ffurflen dreth
 - ✓ Llwyddiant ein system yn gyffredinol; gallai hyn gynnwys nifer y cwsmeriaid sy'n ffeilio ac yn talu ar amser, yr amser mae'n ei gymryd i'n cwsmeriaid ni ac ACC ymateb i ymholiadau ac ati.



Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

Sut i leisio eich barn

- Gallwch leisio eich barn drwy lenwi ein ffurflen ymateb:
<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/siarter-ddrafft-awdurdod-cyllid-cymru>
- Neu, os yw'n well gennych chi, cewch anfon eich safbwyntiau atom ni ar e-bost neu drwy'r post.

Dweudeichdweud@acc.llyw.cymru

Dweud eich dweud

Awdurdod Cyllid Cymru

Canolfan QED

Main Avenue

Ystad Trefforest

Pontypridd

CF37 5YR



Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

- Mae cyfnod yr ymgynghoriad yn dechrau ar **13 Rhagfyr 2017** ac yn cau ar **13 Chwefror 2018**.
- Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad gallwch gysylltu ar Dweudeichdweud@acc.llyw.cymru
- Byddwn yn cyhoeddi'r Siarter terfynol ar ein gwefan ddiwedd mis **Mawrth 2018**.



Beth sy'n digwydd gyda'ch adborth?

Beth sy'n digwydd nesaf:

- Byddwn yn dadansoddi'r adborth rydyn ni'n ei dderbyn drwy gyfrwng yr ymgynghoriad hwn ac yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion.

Diogelu Data:

- Bydd unrhyw ddata a gyflwynir gennych chi'n cael eu gweld yn llawn gan dîm Awdurdod Cyllid Cymru sy'n delio â'r ymgynghoriad hwn.
- Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol. Os nad ydych am i ni gyhoeddi eich enw neu eich cyfeiriad, dylech nodi hynny'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom. Wedyn byddwn yn dileu'r manylion hynny.
- Gall enwau neu gyfeiriadau a gaiff eu dileu gennym ni gael eu cyhoeddi yn nes ymlaen, er nad ydym yn meddwl y bydd hyn yn digwydd yn aml. O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, gall y cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth sy'n cael ei dal gan nifer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdod Cyllid Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn gadael i ni atal y wybodaeth hon o dan rai amgylchiadau. Os oes unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth sydd wedi'i hatal gennym, bydd angen i ni benderfynu a ddylem ei rhyddhau ai peidio. Os oes unrhyw un wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi eu henw a'u cyfeiriad, mae hon yn ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, gellir cael rhesymau pwysig weithiau dros orfod datgelu enw a chyfeiriad rhywun, er eu bod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.